Cystadleuaeth 69.
Cywydd
Buddugol: Rhwng y brwyn sef Tegwyn Pugh Jones
Yn ail: Olwyn sef Arwel Emlyn Jones, Rhuthun

Hiraeth- Gwilym Rees, cymydog.

Dim ond corlan sy'n anwel
yn y tir tan ddiwrnod hel;
heb frig, a cherrig o'i chwr-
un na wêl 'run ymwelwr;
teilchion o grwn yn y gwres
yw hon nas gwn ei hanes.
Ond ddoe, pwy a'i cododd hi,
a pham, a oedd gyff imi?

Roedd un a phridd eu henw'n
ddoe ei ddweud – Gwilym oedd hwn;
ei wlad oedd glannau Gwledog
lle bu'r cof ers llwybrau cóg
am ros, am eiriau i'w hel
a'i beindio fesul bwndel -
Lluesty, Hafoty Fach,
trofâu holl enwau'u llinach,
mân dweud oes eu mynd a dod
yn act o ysgolheictod.
I'w dŷ fe awn i'w weld o
hin wlyb, rhyw alw heibio
am rhyw sgwrs am gwrs ei gwm,
a throi Rees draw wrth reswm
i lenwi hen gorlannau
â sain hŷn hanesion iau -
cynaeafu, llawr cneifio
 bore oes, cydweithio'n bro

oedd ei gof. Waeth heb gofyn
 G'lamai mwy Gwilym am hyn;
mud yw corlan y gwanwyn
a'r fro; mae dagrau a'r frwyn
yn dyst fod Gwilym distaw'n
tlodi'n byd a mud yw'r mawn.